Annwyl Riant/Gofalwr

Mae eich Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion yn ymweld ag ysgol eich plentyn yn rheolaidd. Yn ogystal â rhoi cyngor a phlismona cefnogol mae'r Swyddog hefyd yn cyflwyno gwersi i'r disgyblion yn y dosbarth.

Yr agwedd bwysicaf ar waith Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion yw helpu i gadw plant yn ddiogel, ac mae addysg atal yn rhan annatod o'r rôl.

Mae gwersi'n canolbwyntio ar dair prif thema: Diogelwch, Camddefnyddio Sylweddau ac Ymddygiad. Mae nifer o wersi a gwasanaethau yn y maes Diogelwch yn hyrwyddo diogelwch ar y rhyngrwyd, cydberthnasau mwy diogel a hawliau plant, gan gynnwys yr hawl i fod yn ddiogel rhag unrhyw fath o gamfanteisio.

Mae'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Heddluoedd a Llywodraeth Cymru wedi ymuno â SchoolBeat i gyllido'r broses o ddatblygu gwers newydd sy'n mynd i'r afael â phwnc sensitif Camfanteisio ar Blant. Bydd y wers newydd hon yn cynnwys ffilm sy'n torri tir newydd, a gomisiyniwyd er mwyn helpu plant ym Mlwyddyn 6 i adnabod yr arwyddion pan fyddent yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch y ffordd y mae rhywun yn eu trin a gwybod pwy sy'n gallu eu helpu.

Mae'r ffilm yn hygyrch ar gyfer pob dysgwr ac mae ar gael yn Gymraeg, Saesneg, ac Iaith Arwyddion Prydain, gyda disgrifiad sain dewisol.

Amcan y ffilm yw helpu i roi'r iaith a'r sgiliau sydd eu hangen ar blant er mwyn codi eu llais, gan adrodd stori Griff sy'n 10 oed ac yn mynychu Clwb Sadwrn bob wythnos. Yno, mae aelod o staff yn dechrau dangos ffafr iddo a meithrin perthynas amhriodol ag ef.

Wedyn, mae bachgen hŷn o'r enw Huw yn ymyrryd ac yn helpu Griff i ddeall yr hyn sy'n digwydd a dweud wrth ei fam a'r Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion yn yr ysgol.

Cefnogir stori Griff gan Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, a fu'n siarad yn lansiad y ffilm newydd gan ddweud bod y ffilm yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth,

> *"Nid yw cadw ein plant yn ddiogel rhag niwed yn rhywbeth y gallwn ei wneud ar ein pen ein hunain, mae angen i bawb ohonom gydweithio."*

Cafodd y wers ei threialu mewn nifer o ysgolion ledled Cymru, ac roedd athrawon yn unfarn bod y pwnc wedi cael ei drin yn sensitif. Dywedodd disgyblion hefyd fod y wers yn bwysig iawn ac yn berthnasol iawn o ran eu cadw'n ddiogel.

Rwyf yn falch o roi gwybod i chi y bydd eich Swyddog Heddlu Cymuned Ysgolion yn cyflwyno'r wers i ddisgyblion blwyddyn 6 yn eich ysgol cyn hir.

I gael gwybod mwy am stori Griff, ewch i'n gwefan yn [www.schoolbeat.org/cy](http://www.schoolbeat.org/cy). Cewch weld y rhaglun ar dudalen y lansiad [https://www.schoolbeat.org/cy/newyddion/2019-lansiad-stori-griff/](https://www.schoolbeat.org/cy/newyddion/2019-lansiad-stori-griff/) a thrwy chwilio am "Stori Griff" ar YouTube.

Cofion cynnes

Faith McCready

Mrs Faith McCready
Cydlynydd Cenedlaethol y RhGCYCG
Gorsaf Heddlu Porthcawl
100 Heol John

National Coordinator of the AWSLCP
Porthcawl Police Station
100 John Street

Tel/Ffôn: 01656 305807
Mob/Sym: 07791 102592
E-mail/E-bost: faith.mccready@south-wales.pnn.police.uk